# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

**RHAN 2**

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

**PENNOD 3**

GWEITHREDU CWRICWLWM

*Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir*

VALID FROM 01/09/2022

**29 Gofynion gweithredu pellach ar gyfer disgyblion 3 i 14 oed**

(1) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig yn unol ag is-adran (2) i ddisgyblion nad ydynt eto wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dosbarth yn cyrraedd 14 oed ynddi.

(2) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig mewn ffordd sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl—

(a) sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad (gan gynnwys yr elfennau mandadol o fewn y meysydd hynny), a

(b) sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.

(3) Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicrheir o dan is-adran (2)—

(a) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, fod yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r disgybl, a

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 13/06/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 29 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(b) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gydfynd â Rhan 2 o Atodlen 1, ac eithrio pan fo is-adran (4) yn gymwys.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys pan fo'r addysgu a dysgu i ddisgyblion mewn dosbarth y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ynddo yn iau na'r oedran ysgol gorfodol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 29 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 13/06/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 29 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.